

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cyngor Tref Porthmadog.

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7y.h. Nos Fawrth, 9fed Ionawr 2024 yn y Ganolfan, Porthmadog

Cof; - 0101/2024 - Presennol. Cyngorwyr: Cadeirydd - Aled Griffydd, Dirprwy Cadeirydd Gwilym Jones, Dr Melfyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Sandra Bodden Jones, Michael Roberts.

Clerc ; Eric Price.

Sylwebu; Cyngorydd Sir, June Jones.
.....

Cof; - 0201/2024- Ymddiheuriadau. Cyng: Llywelyn Rhys, Connor Westwood.
.....

Cof;-0301/2024 - Adroddiad y Cadeirydd.
Y Cadeirydd yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda.
.....

Cof;-0401/2024 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mis Rhagfyr 2023.
Penderfynu cadarnhau'r cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.
Cynnig Cyng, Sandra Bodden Jones. Eilio Cyng, Carol Hayes.
.....

Cof;-0501/2024 - Datgan diddordeb.Dim
.....

Cof;-0601/2024 - Cymeradwyo yr Is-Bwyllgo staffioo i benodi Mr Eric Price yn Clerc a swyddog cyfrifol arianol i Cyngor Tref Porthmadog.

Cymeradwyo trwy gynnig Cyng, Alwyn Gruffydd ac eilio Cyng, Gwilym Jones ac wedyn trwy bleidlais unfrydol. Penderfynwyd i Cyngorwyr Michael Roberts, Aled Griffydd, Gwilym Jones parhau i arwyddo sieciau ac i'r Clerc Eric Price arwyddo hefyd.
.....

Cof;-0601/2024 - Cais Cynllunio.

Rhif cais; C23/1014/44/DT - Lleoliad ; Tyn Y Coed, Ffordd y Borth, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UP. Bwriad : Codi Uchder ac ymestyn y to, ynghyd ag estiniad a balconiau
Dim gwrthwynebiad.
.....

Cof;-0701/2024 - Materion i`w dwyn gerbron :-

- **Cyng Michael Roberts** :- cynnig gwneud cais i Adran Forwrol Cyngor Gwynedd i beidio caniatáu gadael cŵn yn rhydd heb dennyn ar draeth Morfa Bychan. Penderfynu cytuno
- **Cyng Aled Griffith** :- Cynnig gwerthuso llwyddiant Goleuo Port 24.11.23 a phenderfynu ar ddyfodol cyfraniad y Cyngor Tref i weithgareddau Nadolig 2024. Penderfynu llythyru mudiadau

i gael rhagor o drafod

- **Cyng Aled Griffith** :- Holi Cyngor Gwynedd beth yw'r sefyllfa gyda'r iard newydd sydd wedi cael ei greu ar faes parcio'r dref ger Canolfan Byw'n Iach Glaslyn ar gyfer gwifro bysiau trafniadaeth gyhoeddus. Penderfynu gofyn beth sydd yn digwydd a beth i'w statws y lle parthed cynllunio.
- **Cyng Gwilym Jones** :- cynnig gwrthod ychwanegu ar beth sydd wedi ei gytuno parthed gosod llinellau melyn ar fynedfa stâd Cefn y Gader o Lon Gwydryn, Morfa Bychan (gweler cofnodion 156.10.23 a llun 1). Cynghorydd Gwilym Jones am fynd ar mater ymlaen
- **Cyng Gwilym Jones** :- Cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd i fynegi pryder am ddiogelwch cerddwyr yn croesi o'r Factory Shop i gyfeiriad Bank Place ac i gyfeiriad Big Rock Café yn dilyn damwain yno yn ddiweddar a gofyn am ymestyn y rhwystrï o flaen y Factory Shop tuag at y goleuadau traffig. Penderfynu derbyn. Cyng Michael Roberts yn eilio

Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Chwefror 13 2024 = Chwefror 3 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

Cof;-0801/2024;- Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm). Derbyn y gwybodaeth

Cof;-0901/2024. GOHEBIAETH :

1	ADRAN CYNLLUNIO	Gosod meinciau picnic ar lain gwyrdd Pencei. Gadael ar y bwrdd
2	TİM TACLUSO	Porth allanol y Timau Tacluso. Derbyn y gwybodaeth
3	SIAN IOLEN PRITCHARD C.G.	Ymgynghoriad Cyfathrebu. Derbyn y gwybodaeth
4	DEWI WYN OWEN	Ymateb pellach – pont droed y Cyt. Derbyn y gwybodaeth
5	SIAN PARRI	Neges o Lŷn – Cryfhau'r Gymraeg. Ymateb i gefnogi
6	STEPHEN FAHERTY	Cerflun Madocks – wedi gohirio ers cyfarfod 12.12.23. Gadel ar y bwrdd
7	BYW'N IACH GLASLYN	Ymateb i 221.12.23 cais am wersi ymarfer corf i rai dros 60. Cyng Carol Hayes am drafod a dod yn ol at y Cynghor Tref
8	UN LLAIS CYMRU	Gweithredu bioamrywiaeth. Derbyn y gwybodaeth
9	BRYN PRITCHARDS JONES	Sauna symudol ar draeth Morfa Bychan. Gwrthod y cais oherwydd posibilrwydd cryf o ddechrau cynsail. Cynnif Cyng, Alwyn Gruffydd. Eilio Cyng Gwilym Jones.
10	RHIAN CONNICK	Plac Porffor – Mair Eifion. Clerc i gael rhagor o wybodaeth.
11 11(a)	UN LLAIS CYMRU	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Ymgynghoriad – Dibenion gwariant y dyfodol ➤ Copi electronig (31 tudalen) o'r Ddogfen Ymgynghori. Derbyn y gwybodaeth,
12	NATIONAL GRID	Diweddariad rhwydwaith Pentir - Trawsfynydd. Clerc am rhannu rhagor o wybodaeth

13. Mater brys safle bws newydd i Tremadog. Penderfynu derbyn cyfrifoldeb. Cynnig Cyng, Gwilym Jones, Eilio Cyng, Sandra Bodden Jones

Lluniau

1	Map Cefn y Gader / Lon Gwydryn
---	--------------------------------

10. MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

H.S.B.C.	Llog Banc Tachwedd / Rhagfyr 2023	£ 54.96
----------	-----------------------------------	---------

Biliau i'w talu :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Clerc Rhagfyr 2023	£ 58.74
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Rhagfyr 2023 (4 awr	£ 1,090.03

		ychwanegol i drosglwyddo'r awennau i'r Clerc newydd)	
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2023	£ 272.50
4	Y Ffynnon	Hysbyseb Clerc Hydref a Thachwedd 2023	£ 28.00

Cytuno gyda materion ariannol

Cyfarfod yn darfod 8.45 y.h.

Cyfarfod llawn nesaf yn y Ganolfan, Porthmadog 7.y.h. Chwefror 13.

Marian Roberts
(Clerc)

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com